



Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 Gorffennaf 2021

Annwyl Elin,

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2021

Yn unol ag adrannau 4(1) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y daw i rym am 4.00am ar 20 Gorffennaf 2021, cyn y gellir ei osod. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol a bwriadaf osod hwn a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig yfory.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r eithriadau teithio a gyflwynwyd yn flaenorol ar sail brechu mewn perthynas â theithwyr o Ffrainc Fetropolitan (tir mawr Ffrainc gan gynnwys ynys Corsica) felly mae'n ofynnol iddynt sefyll dau brawf ôl-gyrraedd ar ddiwrnod 2 a diwrnod 8 a rhaid iddynt ynysu am 10 diwrnod. Mae angen brys o'r fath i ddod i rym i barhau â'r dull pedair gwlad o deithio rhyngwladol oherwydd bydd y gyfraith yng Nghymru yn berthnasol i deithwyr yn ddifater o'r porthladd a ddaethom i fewn. Felly pe na bai'r gwelliant sy'n cael ei wneud gan y Rheoliadau hyn yn cael ei wneud ar frys, byddai teithwyr i'r DU o Ffrainc Fetropolitan yn gallu gadael arwahanrwydd wrth gyrraedd Cymru. Yn wyneb y dystiolaeth newidiol ar risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac y gellir ei gyfiawnhau yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services